

Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr Ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto a gyda thristwch y daeth y newydd am sawl profedigaeth rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Cyfeiriwn yn arbennig at farwolaeth Mrs Elsa Evans a gyfrannodd yn helaeth i waith yr eglwys ac i'r gymuned yn Llanefydd, ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mair a Maelor, ac â Marian, gan gofio hefyd weddill y teulu yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain arbennig iawn. Ac yna, fe ddaeth y newydd y diwrnod canlynol am farwolaeth Mrs Menna Owen (Cefn Meiriadog), un arall fu'n ffyddlon a gweithgar yn ei heglwys. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i gŵr, Meurig a fu mor hynod o driw a gofalus ohoni, yn arbennig felly dros y blynyddoedd diwethaf hyn ers i'w hiechyd dorri. Cydymdeimlwn hefyd â Gwen Evans (Saron) a Clwyd Rogers (Llanefydd) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth eu chwaer – Glenys, oedd hefyd yn fam a nain annwyl; a hefyd Rhys Howatson (Hiraethog) a Beti Evans (Llansannan) a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth o golli tad a brawd, a thaid a hen-daïd hoffus – Emyr Howatson. Cyflwynwn hwy oll i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddïwn y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.
- Cofiwn hefyd am y cleifion yn ein plith. Mae Kitty Parry (Llanefydd) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Hywel Wyn Davies (Cefn Berain) ar hyn o bryd ond sy'n gobeithio cael dod adref y penwythnos hwn. Bu'n rhaid i Bessie Owens (Cefn Berain) ddychwelyd i'r ysbyty ychydig ddyddiau cyn y Nadolig, ond mae hi'n canmol y gofal y mae'n ei gael yn yr Inffirmari yn fawr. Cofiwn hefyd am eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill sy'n dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Cyflwynwn hwy oll i ofal tyner ein Duw.
- Parhawn i gofio hefyd am ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Elsie May Edwards, Llansannan (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Miss W J Roberts, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy). Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Gweddïwn ar i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni y flwyddyn hon eto.
- Llongyfarchiadau calonnog a phob dymuniad da i:
 - Catrin Elen Jones (Llansannan) ar ei dyweddiad â Gareth Davies
 - Elen Morris (Nantglyn) ar ei dyweddiad â James Nichols
 - ac i Gareth Jones (Henllan) a Katie Parry ar eu dyweddiad.

Darllenid Wythnos Nesaf

Mathew 8:5-13 (BCND tud.8 / BCN tud.8)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Ionawr 2017

Darllenid y Dydd

Salm 89:1-7

(BCND tud.541 / BCN: tud.494)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Blwyddyn newydd dda i chi gyd! Croeso cynnes i wasanaethau'r Fro heddiw. Gweddïwn y cawn oedfaon bendithiol ac y byddwn yn dod i berthynas agosach gyda Duw. Gobeithiwn eich bod wedi cael gwyliau ymlaciol a'ch bod wedi cael cyfle i fyfyrto ychydig dros wyrth geni mab Duw ymysg y prysurdeb.

Mae'n flwyddyn newydd, ac mae hyn yn rhoi cyfle i ni werthuso bywyd i ryw raddau. Yn aml mae'r ffordd mae Duw'n gweithio yn dod yn amlwg wrth edrych yn ôl dros gyfnod hir. Mae hyn yn ein galluogi i weld sut mae Duw ar waith o fewn ein bywydau ni a'r bobl o'n hamgylch. Wrth gwrs, enghraifft amlwg o hyn ydy geni Iesu Grist. Doedd o ddim yn amlwg ar y pryd sut yn union oedd Duw yn gweithio, ond wrth edrych yn ôl ar yr holl hanes ac ar broffwydoliaethau'r Hen Destament, mae'n glir fod Duw wedi anfon ei unig fab fel gwardwr i'r byd.

Trwy sylweddoli bod Duw ar waith a hefyd gweld sut mae Duw yn gweithio, rydan ni'n dod i ymddiried ynddo fo yn fwy a mwy bob dydd. Rydan ni'n dod i adnabod fod Duw yn gweithio mewn ffyrdd sy'n aml yn ddirgel i ni – Eiseia 55:8 “Dydy fy mwriadau i ddim yr un fath â'ch bwriadau chi, a dydy fy ffyrdd i ddim yr un fath â'ch ffyrdd chi”. Faint o galonid ydy geiriau fel yma? Pa mor aml yda ni wedi meddwl ein bod yn gwybod y llwybr gorau, dim ond iddo droi allan i fod yn lwybr gwael? Neu pa mor aml yda ni wedi bod yn gweddïo dros ryw ganlyniad neu'i gilydd, dim ond i Dduw roi rhywbeth arall o'n blaenau ni sy'n gwella ein perthynas gyda fo? Mae Duw ar waith trwy'r adeg. Er iddo fod yn anodd i ni, mae'n rhaid i ni ymddiried yn ei ewyllys a'i rym o os ydan ni am dyfu'n ysbrydol.

Trwy wneud hyn, rydan ni'n magu dygnwch ysbrydol fel nad ydym yn cael ein ysgwyd gan bob cnoc neu siom. “Trystia'r ARGLWYDD yn llwyr; paid dibynnu ar dy syniadau dy hun. Gwrando arno fo bob amser, a bydd o'n dangos y ffordd iawn i ti.” (Diarhebion 3:5-6)

Felly, wrth i ni ddechrau ar flwyddyn newydd gyda'n gilydd, beth am ymddiried yn yr Arglwydd ar sail beth mae wedi ei wneud – 1) trwy hanes yn y Beibl; 2) yn ein bywydau ni'n bersonol? Os ydan ni'n Gristnogion, rydan ni'n dystiolaeth o waith gwyrthiol yr Ysbryd Glân yn y byd.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 11^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
➤ **Torri Syched y Merched** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- Iau – 12^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Sadwrn – 14^{eg} ➤ **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ am 10.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd Gwion yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Ionawr 8fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Mercher – 11^{eg} ➤ Bydd Cymdeithas Henllan yn cyfarfod yn y Ffestri am 7.30 pryd y bydd Olwen Cottle yn rhannu hanes ei thaith i ymweld â'i mab yn Ynys Helena.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Llun – 9^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 7.00.
- Iau – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cymdeithas Cefn Berain yng nghwmni Cadi Mars Jones a Dafydd Wyn Jones am 7.30.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

I ddod

- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Trefnant nos Iau, Ionawr 19eg. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod am 4.30, ac yna gwaith yr Henaduriaeth a throsglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parch. Nesta Davies am 6.00.
- **OEDFA ARBENNIG I'R FRO** i dderbyn nifer o ieuenctid yr Ofalaeth yn gyflawn aelodau o'u heglwysi lleol nos Sul, Ionawr 29ain am 6.00 yn Llansannan.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8-12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 3ydd-5ed. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Ionawr 25ain**. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei ddsbarthu yn ystod yr wythnos, ond os na fyddwch wedi derbyn gwybodaeth, plis cysylltwch â Gwion.

Manylion Cyswllt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*